



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau ar gyfer hysbysiad dyddiadau tymhorau ysgol

Cynigion ar gyfer Rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2014

Rheoliadau ar gyfer hysbysiad dyddiadau tymhorau ysgol

- Cynulleidfa** Awdurdodau lleol yng Nghymru gan gynnwys eu priod gyfarwyddwyr addysg; cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; undebau athrawon; Estyn; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/ Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru; Comisiynydd Plant Cymru.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Llywodraethu Ysgolion
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6051
Ffacs: 029 2080 1044
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau
- Dogfennau cysylltiedig** Deddf Addysg 2002 (Saesneg yn unig)
www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents
Bil Addysg (Cymru)
www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=7186

Cynnwys

1. Cefndir	1
2. Yr ymgynghoriad	2
3. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	3
4. Rhestr o ymatebwyr	9

1. Cefndir

Cefndir i'r cynigion ar gyfer Rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru

- 1.1 Cyflwynwyd Bil Addysg (Cymru) ("y Bil") gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf 2013.
- 1.2 Bydd y Bil, os bydd yn pasio proses craffu'r Cynulliad ac yn derbyn Cydsyniad Brenhinol maes o law ac yn dod yn gyfraith, yn gwneud nifer o newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol cyfredol yng nghyswllt sut caiff dyddiadau tymhorau ysgol eu pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ynglŷn â'r cynigion o ran dyddiadau tymhorau ysgol yn y Bil, rhwng 3 Medi 2012 a 26 Tachwedd 2012. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion yn:
<http://wales.gov.uk/consultations/education/schooltermdates/?skip=1&lang=cy>
- 1.3 Mae un o'r newidiadau deddfwriaethol yn cynnwys gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hysbysu Llywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd nhw.
- 1.4 Yn ogystal, mae'r Bil yn cynnig rhoi pŵer i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer sut bydd hysbysiad o ddyddiadau tymhorau yn cael ei roi, a phryd.

Cynigion yr ymgynghoriad

- 1.5 Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu tri chynnig ynghylch:
 - a) cynnwys a ffurf yr hysbysiadau y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau;
 - b) yr amserlen ar gyfer rhoi'r hysbysiadau hyn; ac
 - c) y drefn y mae'n rhaid ei dilyn wrth hysbysu Llywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau.
- 1.6 Cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, ymgynghoriad 12 wythnos waith ar y we ar y cynigion hyn i ddiwygio'r ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgol yn cael eu pennu yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng 9 Medi a 29 Tachwedd 2013.
- 1.7 Mae copi o'r dogfennau ymgynghori ar gael yn:
<http://wales.gov.uk/consultations/education/term-dates-regulations/?skip=1&lang=cy>

2. Yr ymgynghoriad

Y broses ymgynghori

- 2.1 Roedd y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ei gwefan yn gofyn am sylwadau am gynigion yr ymgynghoriad.
- 2.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr bwysu a mesur cwestiynau penodol am y cynigion, a chawsant eu hannog i godi unrhyw bwyntiau eraill a oedd yn angenrheidiol yn eu barn nhw. Gofynnwyd iddynt hefyd ystyried effaith bosibl y cynigion ar faterion yn ymwneud â chydaddoldeb.
- 2.3 Cafodd y ddogfen ymgynghori ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a chafodd yr ymarfer ymgynghori ei hyrwyddo drwy bost electronig uniongyrchol i awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol, cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, undebau athrawon a phartïon eraill â diddordeb, fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Cysylltwyd yn uniongyrchol â'r Comisiynydd Plant ac amrywiol gyrff eraill sy'n canolbwyntio ar blant, fel SNAP Cymru, drwy bost electronig.

Ymatebion a dderbyniwyd

- 2.4 Cafwyd 20 ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Daeth un o'r ymatebion o'r tu allan i Gymru, gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig. Roedd yn adlewyrchu safbwyntiau nifer o gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac awdurdodau esgobaethol yng Nghymru a ymatebodd i'r ymgynghoriad.
- 2.5 Gellir rhoi'r 20 ymatebydd yn y categorïau canlynol:

Awdurdodau Lleol	5
Awdurdodau Esgobaethol	1
Undebau	4
Ysgolion	4
Cyrff cynrychioladol a chyrrff eraill	5
Unigolion/dienw	1

Canfyddiadau'r ymgynghoriad

- 2.6 Ceir dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn y tudalennau nesaf.
- 2.7 Nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i unrhyw ymatebion nad oeddent yn rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Pan oedd hynny'n briodol, rhoddwyd yr ymatebion hyn i'r gangen berthnasol yn yr Adran Addysg a Sgiliau er mwyn gallu eu hystyried a bwrw ymlaen â hwy.

3. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

- 3.1 Roedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn tri chwestiwn penodol am y cynigion ar gyfer rheoliadau ynghylch sut mae awdurdodau lleol yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd, yn ogystal â dau gwestiwn mwy cyffredinol.
- 3.2 Oni nodir yn wahanol, yn yr adroddiad hwn, mynegir canrannau fel mesur o'r rhai sy'n ateb pob cwestiwn. Mae pob canran o'r fath wedi cael ei thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

C1. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer cynnwys a chynllun yr hysbysiad? (Gweler paragraffau 4.1 i 4.4 yn adran 4, a'r Atodiad i'r ddogfen ymgynghori).

- 3.3 O'r 20 ymateb, roedd 10 yn cytuno â'r cynnig, roedd 5 yn anghytuno, nid oedd 3 yn cytuno nac yn anghytuno, ac ni chafwyd unrhyw sylw uniongyrchol gan 2.
- 3.4 Mae hyn yn golygu bod 50% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, a dim ond 25% sy'n anghytuno ag ef.
- 3.5 Daeth 5 o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn gan awdurdodau lleol. O blith y rhain, roedd 2 yn cytuno â'r cynnig a 3 yn anghytuno. Roedd y pryderon a fynegwyd yn cynnwys y gwaith posibl o gael llofnod cadeirydd/is-gadeirydd pob corff llywodraethu yn eu gwahanol ardaloedd. Cafodd y pryder hwn ei godi gan amrywiol ymatebwyr nad oeddent yn awdurdodau lleol hefyd.
- 3.6 Cafwyd sylw gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig bod y broses o gael llofnodion gan gadeirydd neu is-gadeirydd corff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir ac ysgol sefydledig ar un ddogfen yn debygol o fod yn broses *lafurddwys a fyddai'n cymryd llawer o amser*.
- 3.7 Dewisodd ambell ymatebydd roi sylw am yr egwyddor o gysoni dyddiadau tymhorau ysgol. Roedd y mater hwn wedi cael sylw mewn ymgynghoriad cynharach ar gynigion i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol i bennu dyddiadau tymhorau. Mae manylion yr ymgynghoriad hwn i'w gweld yn: <http://wales.gov.uk/consultations/education/schooltermdates/?skip=1&lang=cy>

Ymateb

- 3.8 Ein cynnig yw caniatáu i hysbysiadau gael eu hanfon ar bapur neu'n electronig, ac i nifer o hysbysiadau "rhannol" ffurfio'r hysbysiad "llawn". Bydd hyn yn dileu'r broses anodd o gael cadeirydd neu is-gadeirydd corff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig i lofnodi un hysbysiad. Yn ymarferol, ni ddylai unrhyw faich gweinyddol ar awdurdodau lleol i roi gwybod i ni am ddyddiadau tymhorau yn eu hardaloedd fod yn fawr iawn.

- 3.9 Ni ddylai gymryd llawer o amser i anfon hysbysiad drwy e-bost neu ar bapur i gyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol ym mhob ardal awdurdodau lleol, yn gofyn iddynt nodi dyddiadau tymhorau'r ysgol a llofnodi'r hysbysiad (a all gynnwys llofnodion electronig), ac yna anfon yr ymatebion hyn i Lywodraeth Cymru. Y gwaith cydlynu a chydweithredu rhwng awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion perthnasol i bennu dyddiadau'r tymhorau (rhywbeth a ddylai fod yn digwydd yn barod ac nad yw'n rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn) fydd yn cymryd y mwyaf o amser.

C2. Ydych chi'n cytuno y dylai'r hysbysiad gael ei roi erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst, ddwy flynedd lawn cyn dechrau'r flwyddyn ysgol dan sylw? (Gweler paragraffau 4.5 i 4.6 yn adran 4).

- 3.10 Cytunwyd yn gyffredinol â'r cynnig hwn. Roedd 12 ymatebydd yn cytuno â'r cynnig, roedd 5 yn anghytuno, nid oedd 1 yn cytuno nac yn anghytuno ac ni chafwyd unrhyw sylwadau uniongyrchol gan 2 ymatebydd. Mae hyn yn golygu bod 60% yn cytuno â'r cynnig ac mai dim ond 25% oedd yn anghytuno.
- 3.11 Roedd Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (ESTYN) yn gefnogol i'r cynnig hwn, gan roi'r sylw canlynol:

...mae'r cyfnod ar gyfer rhoi'r hysbysiad yn briodol yng nghyd-destun y cynnig hwn.

- 3.12 Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod yr amserlen yn rhy dynn, yn enwedig petai angen i Weinidogion Cymru ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau. Roedd un ymateb, a oedd yn gefnogol yn gyffredinol, yn sôn y gallai'r amserlen achosi anawsterau lleol, er enghraifft petai ymgynghoriad ar drefniadau derbyn i'r ysgol a bod y "cynnig" cysylltiedig y cytunwyd arno yn ystod gwyliau'r ysgol.
- 3.13 Dywedodd ambell ymatebydd y dylai dyddiad yr hysbysiad fod ym mis Gorffennaf, pan oedd ysgolion yn dal yn gweithio. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cael rhaglen 5 mlynedd o ddyddiadau tymhorau wedi'i threfnu.

Ymateb

- 3.14 Y gobaith yw y gall awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig gytuno ar ddyddiadau cyson ar gyfer tymhorau, fel nad oes angen i Weinidogion Cymru ystyried defnyddio'u pwerau.
- 3.15 Os nad yw dyddiadau'n cael eu cysoni a bod angen i Weinidogion Cymru gamu i mewn, mae Llywodraeth Cymru yn teimlo y bydd digon o amser i ymgynghori ar eu cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau. Er enghraifft, oherwydd y cynigir mai'r flwyddyn gyntaf y bydd y trefniadau newydd hyn o ran dyddiadau tymhorau yn dod i rym fydd y flwyddyn ysgol rhwng mis Medi 2016 a mis Gorffennaf 2017, bydd yn rhaid i bob hysbysiad o ddyddiadau tymhorau ar gyfer y flwyddyn ysgol hon ddod i law erbyn diwedd y diwrnod gwaith ar ddydd Gwener 29 Awst 2014. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser, os bydd angen, i Weinidogion Cymru ystyried defnyddio'u pwerau cyfarwyddo,

ymgyngori ar y dyddiadau a gynigir, a defnyddio'u pŵer cyfarwyddo er mwyn pennu dyddiadau tymhorau ar gyfer y flwyddyn ysgol 2016-17 yn effeithiol erbyn haf 2015.

- 3.16 Byddai ymgynghoriad priodol yn cael ei gynnal cyn defnyddio pwerau Gweinidogion Cymru i bob pwrpas i bennu dyddiadau tymhorau, felly dylai unrhyw broblemau posibl gyda'r dyddiadau arfaethedig gael eu canfod ddigon ymlaen llaw.
- 3.17 Petaent yn dymuno, gallai awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion perthnasol ddewis rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau y maent wedi'u pennu cyn dyddiad yr hysbysiad, a phennu dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni 5 mlynedd ymlaen llaw.

C3. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer y weithdrefn y bydd awdurdodau lleol yn ei dilyn wrth hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau tymhorau ysgol yn eu hardaloedd nhw? (Gweler paragraffau 4.7 i 4.12 yn adran 4).

- 3.18 Cymysg oedd yr ymateb i'r cynnig hwn. Roedd 9 ymatebydd yn cytuno â'r cynnig, roedd 6 ymatebydd yn anghytuno, nid oedd 3 yn cytuno nac yn anghytuno ac ni chafwyd sylw uniongyrchol gan 2 ymatebydd.
- 3.19 Mae hyn yn golygu bod 45% yn cytuno â'r cynnig a 30% yn anghytuno ag ef.
- 3.20 Er bod mwy yn cytuno â'r cynnig hwn nag yr oedd yn anghytuno, roedd ymatebion yn cynnwys y farn mai Gweinidogion Cymru ddylai fod yn pennu dyddiadau tymhorau o'r cychwyn, a chodwyd rhagor o bryderon am y baich gweinyddol posibl ar awdurdodau lleol.
- 3.21 Roedd un ymatebydd yn bryderus nad oedd y cynnig yn cydnabod Awdurdodau Esgobaethol, gan ddweud mai nhw ddylai gasglu llofnodion o ysgolion "ffydd" eraill, nid awdurdodau lleol.

Ymateb

- 3.22 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn hollbwysig bod ysgolion sefydledig ac ysgolion "ffydd" gwirfoddol a gynorthwyir – yn ogystal ag awdurdodau lleol – yn cadw eu hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion ac yn parhau'n ganolog i'r broses o bennu dyddiadau tymhorau. Petai Gweinidogion Cymru yn ysgwyddo'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau o'r cychwyn, gallai llawer edrych ar hyn fel achos o ganoli grym nad oes modd ei gyfiawnhau.
- 3.23 Er bod cyrff llywodraethu ysgolion "ffydd" gwirfoddol a gynorthwyir yn cymryd cyfarwyddyd gan eu hawdurdod Esgobaethol wrth bennu dyddiadau tymhorau, mae'r ddyletswydd gyfreithiol gyfredol yn adran 32 o Ddeddf Addysg 2002 yn dweud mai cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig sy'n pennu dyddiadau tymhorau; mae'r cynigion ym Mil Addysg (Cymru) am i'r trefniant hwn barhau.

- 3.24 Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn adolygu'r modd y mae'r gwaith o bennu dyddiadau tymhorau ysgol yn gweithio, i wneud yn siŵr bod y baich gweinyddol ar awdurdodau lleol wrth iddynt ymgymryd â'r hysbysiadau yn cyd-fynd â'r hyn a drafodwyd ym mharagraffau 8 a 9 uchod.

C4. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Byddem yn croesawu eich barn am effaith bosibl pob un o'n cynigion ar:

- a) anabledd**
- b) hil**
- c) rhywedd ac ailbennu rhywedd**
- d) oed**
- e) crefydd a chred a diffyg cred**
- f) cyfeiriadedd rhywiol**
- g) hawliau dynol**

- 3.25 Roedd nifer o ymatebwyr naill ai wedi dewis peidio â gwneud sylw neu wedi dweud eu bod naill ai ddim yn gweld unrhyw broblemau o ran cydraddoldeb neu ddim yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael "effaith negyddol". Roedd hyn yn wir am 12 o'r 20 ymateb a ddaeth i law, sy'n 60% o'r holl ymatebion.
- 3.26 Pan oedd ymatebwyr yn gweld problemau posibl, roedd y rheini fel arfer yn ymwneud â'r effaith bosibl ar ysgolion ffydd a chredoau crefyddol/ffydd, gan gynnwys rhai grwpiau ffydd nad ydynt yn rhai Cristnogol. Codwyd hyn gan 7 o'r 20 ymatebydd, sy'n 35% o'r holl ymatebion.
- 3.27 Roedd y Comisiynydd Plant yn cwestiynu pam nad oedd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn y ffurflen ymateb hefyd.
- 3.28 Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys yr effaith bosibl ar ysgolion "ffydd" gwirfoddol a gynorthwyr, yn enwedig o amgylch Gŵyl y Pasg. Dywedodd un ymatebydd fod y cynigion yn *effeithio ar ethos, cenhadaeth a nodau'r ysgolion eu hunain*. Soniodd ymatebydd arall am ei siom nad oedd unrhyw gynlluniau i drin y Pasg fel gŵyl y banc a gwneud gwyliau'r gwanwyn yn sefydlog er mwyn i'r tymhorau fod yn fwy cyfartal.
- 3.29 Roedd y sylwadau a oedd yn codi pryderon am ffydd/credoau ar wahân i rai Cristnogol yn cynnwys bod angen *cyfeiriad cliriach at ddiwrnodau sy'n benodol i ffydd a gofynion disgyblion nad ydynt yn Gristnogion o ran gwyliau, a sicrhau bod y rhain yn cael eu cydnabod...*

Ymateb

- 3.30 Nid oedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gweld unrhyw broblemau posibl gyda'r cynigion o ran cydraddoldeb, neu nid oeddent yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael "effaith negyddol".
- 3.31 Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r materion a godwyd o ran ffydd/credoau crefyddol, gan gynnwys rhai nad ydynt yn Gristnogol. Ar y

cyfan, mae'r rhain yn ymwneud â phryderon y bydd y cynigion i gysoni dyddiadau tymhorau ysgol yn effeithio ar ofynion crefyddol ysgolion ffydd.

- 3.32 Rhagwelir y bydd awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion perthnasol yn gallu ystyried gofynion crefyddol ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyr a chredoau ar wahân i rai Cristnogol wrth weithio tuag at gytuno ar ddyddiadau tymhorau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn effro i'r angen i roi sylw priodol i'r pryderon hyn.
- 3.33 Os bydd angen i Weinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau cyfarwyddo, bydd angen cynnal ymgynghoriad priodol ar y dyddiadau a gynigir ganddynt ar gyfer y tymhorau. Bydd modd i bryderon ysgolion ffydd neu gredoau ar wahân i Gristnogaeth ynghylch y dyddiadau hynny gael eu codi mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw.
- 3.34 Croesewir yr awgrym i drin y Pasg fel gŵyl y banc a gwneud gwyliau'r gwanwyn yn sefydlog er mwyn gwneud y tymhorau'n fwy cyfartal. Fodd bynnag, gellid dweud y byddai gweithredu awgrym o'r fath yn addasu patrwm y flwyddyn ysgol. Nid yw hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r cynigion hyn, ond gallent gael eu hystyried yn y dyfodol.
- 3.35 Yn unol â dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, credwn ein bod wedi ystyried effaith ein cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau ar blant fel rhan o'r broses o ddatblygu polisiau/deddfwriaeth. Rydym hefyd, fel rhan o'r gwaith hwn, wedi cynnal asesiad o effaith bosibl ein polisi ar ddyddiadau tymhorau ysgol ar hawliau plant. Bydd hon yn dasg barhaus o ddadansoddi a fydd yn cael sylw fel y bo'n briodol fel rhan o'r broses ddatblygu deddfwriaethol.

C5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael sylw penodol, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt.

- 3.36 O'r 20 ymatebydd, manteisiodd 11 (55%) ar y cyfle i godi mwy o faterion.
- 3.37 Nid oedd rhai o'r materion a godwyd yn dod o dan gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Ni roddir sylwadau ar y materion hynny yn y fan hon, ond maent wedi cael eu pasio, lle bo hynny'n briodol, i'r gangen berthnasol yn yr Adran Addysg a Sgiliau.
- 3.38 Dewisodd rhai ymatebwyr wneud sylw am a/neu leisio'u gwrthwynebiad i'r egwyddor o gysoni dyddiadau tymhorau ysgol – mater yr ymdriniwyd ag ef yn yr ymgynghoriad cynharach ar gynigion i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol i bennu dyddiadau tymhorau – nad yw'n rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn.
- 3.39 Manteisiodd pump o ymatebwyr ar y cyfle i ddweud eu bod yn credu y dylai Gweinidogion Cymru bennu dyddiadau tymhorau eu hunain, ac na ddylent roi'r brif ddyletswydd o bennu dyddiadau i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion perthnasol.

- 3.40 Manteisiodd ymatebwyr eraill ar y cyfle i leisio eto'u pryderon am ysgolion ffydd o fewn y broses arfaethedig o gysoni dyddiadau tymhorau, a gofynnodd un arall am fwy o hyblygrwydd o ran dyddiadau tymhorau.
- 3.41 Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r model a fabwysiadwyd gan rai "ysgolion rhydd" yn Lloegr gael ei ystyried, lle mae "gwyliau blynyddol" wedi'i neilltuo i bob plentyn, a all ffurfio rhan o'u cofnod presenoldeb/absenoldeb.

Ymateb

- 3.42 Mae cryfder yr ymateb i dri chynnig yr ymgynghoriad sy'n sail i gynlluniau i gysoni dyddiadau tymhorau ysgolion (sydd i'w gweld yng Nghwestiynau 1 i 3 yr ymatebion i'r ymgynghoriad) yn dangos bod mwy o gytuno nag anghytuno ar gyflwyno'r cynigion hyn ynghylch y broses hysbysu am ddyddiadau tymhorau mewn Rheoliadau.
- 3.43 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn hollbwysig bod ysgolion sefydledig ac ysgolion "ffydd" gwirfoddol a gynorthwyir – yn ogystal ag awdurdodau lleol – yn aros yn ganolog i'r broses o bennu dyddiadau tymhorau ac yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion. Petai Gweinidogion Cymru yn ysgwyddo'r ddyletswydd i bennu dyddiadau tymhorau o'r dechrau, byddai hyn yn cael ei ystyried yn afresymol yng ngolwg amryw.
- 3.44 Fel yr eglurwyd mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad o ran effaith ar gydraddoldeb ym mharagraffau 31 i 33, dylid rhoi sylw i anghenion ysgolion "ffydd" a chredoau nad ydynt yn Gristnogol fel rhan o'r broses o gysoni dyddiadau tymhorau.
- 3.45 Mae'r awgrym i ystyried y model a fabwysiadwyd gan rai ysgolion "rhydd" yn cael ei groesawu. Fodd bynnag, gellid dweud y byddai awgrym o'r fath yn addasu patrwm y flwyddyn ysgol, ac nid yw hynny'n cael ei ystyried fel rhan o'r cynigion hyn.
- 3.46 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl adolygu'r ffordd y mae'r broses o bennu dyddiadau tymhorau ysgolion yn gweithio ar ôl blwyddyn ysgol 2016-17, ac y bydd yn adrodd yn ôl am hynny yn ystod tymor yr hydref 2018.

4. Rhestr o ymatebwyr

- 4.1 Ysgol Gynradd Talacharn, Sir Gaerfyrddin
- 4.2 NUT Cymru
- 4.3 Estyn
- 4.4 Cyngor Sir Casnewydd
- 4.5 Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (Cymru)
- 4.6 UCAC Cymru
- 4.7 Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
- 4.8 Llywodraethwyr Cymru
- 4.9 Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf
- 4.10 Awdurdod Lleol Conwy
- 4.11 Awdurdod Lleol Ynys Môn
- 4.12 Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr St. Patrick's, Casnewydd
- 4.13 Awdurdod Lleol Gwynedd
- 4.14 Comisiynydd Plant Cymru
- 4.15 NAHT Cymru
- 4.16 Esgobaeth Gatholig Gwasanaeth Addysg Wrecsam
- 4.17 SNAP Cymru
- 4.18 Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd

Yn ogystal â'r ymatebwyr uchod roedd 2 ymatebydd yn dymuno aros yn ddienw.